DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Practis Deintyddol Fairwater Green

11 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3947-4


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

    Profiad y Claf ........ 6

    Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8

    Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12

    Ansawdd yr Amgylchedd ........ 14

6. Y Camau Nesaf ........ 15

    Atodiad A ........ 16

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Fairwater Green, 6 Fairwater Green, y Tyllgoed, CF5 3BA, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 11 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol sy'n ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Fairwater Green yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Tyllgoed, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Practis Deintyddol Fairwater Green yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat â gwasanaethau deintyddol y GIG. Fodd bynnag, rhoddir rhagor o bwyslais ar ddarparu gofal a thriniaeth y GIG.

Mae tîm y practis yn cynnwys tri deintydd (un ohonynt yw'r prif ddeintydd), rheolwr practis, pum nyrs (mae dwy ohonynt hefyd yn gweithio yn y dderbynfa ar adegau) a derbynnydd dynodedig.

Mae'r prif ddeintydd hefyd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae'r practis yn darparu lleoliadau a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n ymgymryd â'u blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau cwrs gradd yn y brifysgol).

Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau deintyddol. Mae hyn yn cynnwys:

- Archwiliadau a diagnosis deintyddol
- Gofal ataliol
- Cyflenwi ac atgyweirio offer deintyddol
- Corunau, llenwadau a gwaith pontydd

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Fairwater Green yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn holiaduron AGIC nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Wrth inni gael sgwrs â dau glaf ar ddiwrnod ein hymweliad, cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn ganddynt am eu gofal a’u triniaeth, a'r tîm o staff.

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn cael ei redeg â’r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom hefyd fod cofnodion cleifion ar y cyfan o safon uchel, a oedd yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion

Gwnaethom nodi'r angen i wella'r system a oedd ar waith ar gyfer gwirio cyfarpar dadebru a chyffuriau brys.

Roedd y practis deintyddol wedi'i hen sefydlu, ac roedd yn cael ei redeg yn dda gan y prif ddeintydd a rheolwr practis. Roedd y ddau ohonynt yn cael eu cynorthwyo gan dîm gwybodus a brwdfrydig.

Roedd gan y practis systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd safle'r practis deintyddol yn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Roedd pob man y tu mewn i'r adeilad i'w weld yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn groesawgar ac yn daclus.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn holiaduron AGIC nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.**

**Wrth inni gael sgwrs â dau glaf ar ddiwrnod ein hymweliad, cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn ganddynt am eu gofal a'u triniaeth, a'r tîm o staff.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i'r practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Roedd 16 o holiaduron wedi cael eu cwblhau cyn ein harolygiad.

Nododd pob un o'r cleifion ei fod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roedd yn ei dderbyn yn y practis, a'i fod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y tîm o staff yn ei ddefnyddio (boed hynny dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) wrth iddynt ymdrin â chleifion.

Dywedodd pum claf wrthym eu bod wedi profi rhywfaint o oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad, er y tueddai hyn i fod yn anaml, a'r oedi'n fyr. Dywedodd cleifion wrthym hefyd fod y deintydd yn ymddiheuro am yr oedi. Roedd sampl o sylwadau ysgrifenedig y cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Ardderchog!'*
>
> *'Dw i bob amser wedi derbyn gwasanaeth a thriniaeth wych yn y practis hwn'*
>
> *'Gwasanaeth cwrtais ac effeithlon fu fy mhrofiad yma'*
>
> *'Mae'r wybodaeth am driniaeth yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei deall'*
>
> 'Dw i'n hoffi'r practis  hwn. Maent yn fy adnabod i a'm plant, a dw i'n ymddiried yn eu harbenigedd'.

Gwnaethom siarad â dau glaf a oedd yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y ddau ohonynt ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth hyd yn hyn.

Dywedodd 50 y cant o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, er i dri o'r rhain ddweud y byddent yn ffonio rhif y practis. Gwelsom arwydd mawr

wedi'i harddangos o flaen adeilad y practis ac arno'r rhif cyswllt brys, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y practis, a bod y rhif hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth am wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau'n hawdd i gleifion ei chyrraedd pe bai angen.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym eu bod yn trafod opsiynau triniaeth â chleifion, a gwelsom fod hyn yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw neu mewn argyfwng. Roedd apwyntiadau brys ar gael yn y practis bob dydd, a oedd yn galluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym yn ôl y gofyn.

Roedd gan y practis wefan fanwl (a oedd yn bodloni holl safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu) a thaflen wybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth sylfaenol am y gwasanaeth ar gael hefyd trwy wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Daeth i'r amlwg yn ystod sgwrs â'r tîm deintyddol fod y cleifion yn cael eu hannog i leisio'u barn ar y gwasanaeth pan fyddant yn mynychu'r practis. Rhoddwyd hefyd gopi o holiadur cleifion y practis inni. Roedd cyflenwad o'r rhain ar ddesg y dderbynfa. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod holiaduron a gwblhawyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod problemau'n cael eu trafod yn y cyfarfod staff misol. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith er mwyn i gleifion roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â sut i wneud cwyn am eu gofal neu eu triniaeth, dywedodd y rhan fwyaf o gleifion nad oeddent yn gwybod sut i leisio pryderon, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Dywedodd wyth claf nad oeddent yn gwybod sut i leisio pryderon nac i wneud cwyn. Gwelsom fod poster wedi'i arddangos yn yr ystafell aros ar y llawr daear, a oedd yn cyfuno gwybodaeth ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Fodd bynnag, roedd maint y geiriau ar y poster yn fach. Gwnaethom siarad felly â rheolwr y practis, a chynhyrchodd hithau'r wybodaeth mewn print mwy o faint yn ystod ein harolygiad, er mwyn gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch ar gyfer pob claf.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y practis wedi sefydlu proses ar gyfer cofnodi unrhyw bryderon/cwynion a dderbynnir, er mai anaml iawn roedd hyn yn digwydd. Roedd cofnodion hefyd yn dangos yn glir sut roedd cwynion o'r fath yn derbyn sylw.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Canfuom fod y practis yn cael ei redeg â’r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwelsom hefyd fod cofnodion cleifion ar y cyfan o safon uchel, a oedd yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

**Gwnaethom nodi'r angen i wella'r system a oedd ar waith ar gyfer gwirio cyfarpar dadebru a chyffuriau brys.**

<u>Offer radiograffig</u>

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau perthnasol yn ymwneud â hyfforddiant staff, gwiriadau diogelwch, a chynnal a chadw a phrofion ar offer. Gwelwyd hefyd reolau lleol ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r tîm deintyddol fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerid yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd. Roedd y practis hefyd wedi cynnal archwiliad o'r broses o gynnal sganiau pelydr-X deintyddol yn ystod 2013.

<u>Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng</u>

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelsom fod cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Fodd bynnag, er y dywedwyd wrthym fod y cyflenwad o ocsigen yn cael ei wirio'n rheolaidd, nid oedd gwiriadau o'r fath yn cael eu cofnodi. Gwelsom hefyd nad oedd y rhestr wirio ar gyfer cyfarpar brys yn cynnwys unrhyw ddyddiadau er mwyn cadarnhau pan oedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn ogystal, roedd llofnod y person a oedd yn cynnal gwiriadau o'r fath ar goll, ac roedd dyddiad[4] dod i ben y padiau diffibriliwr allanol

[4] Dyfais gludadwy yw diffibriliwr allanol awtomatig, sy'n gwirio rhythm y galon ac yn gallu anfon sioc drydanol i'r galon er mwyn adfywio ei rhythm arferol.

awtomatig wedi mynd heibio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod yr holl gyffuriau brys o fewn eu dyddiad dod i ben.

Tynnwyd sylw'r tîm deintyddol at y materion uchod ar unwaith, er mwyn iddynt wneud y gwelliannau yn brydlon. Ers hynny, mae'r practis wedi'n hysbysu ni bod system o wirio cyfarpar brys wedi'i rhoi ar waith, yn unol â chanllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU. Fe'n hysbyswyd hefyd fod padiau diffibriliwr allanol awtomatig newydd wedi cael eu harchebu.

Daeth i'r amlwg yn ystod trafodaeth â rheolwr y practis fod dau aelod o'r tîm deintyddol wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar er mwyn iddynt ddefnyddio cymorth cyntaf. Gwelsom hefyd arwydd yn y practis a oedd yn cadarnhau'r trefniadau hynny.

Dadheintio

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd y man hwn i'w weld yn lân, yn hylan ac yn rhydd rhag annibendod. Gwnaethom gynnal trafodaethau ag aelod o'r tîm deintyddol, ac roeddem yn fodlon bod prosesau addas ac wedi'u hen sefydlu ar waith er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn y cleifion a’r staff. Gwelsom fod cyfarpar addas ar waith at ddibenion dadheintio, ac roedd cyflwr ymddangosiadol dda ar bopeth. Roedd sinc golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd eitemau tafladwy (megis cyfarpar diogelu llygaid, menig a ffedogau) ar gael i helpu unigolion â'u gweithdrefnau rheoli heintiau.

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau archwiliad trylwyr o'r trefniadau atal a rheoli heintiau yn ystod 2014, gan ddefnyddio dogfennau a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[5] Roedd y practis hefyd yn cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol priodol wedi eu cofnodi, er mwyn sicrhau bod y broses ddadheintio'n effeithiol, a bod y cyfarpar yn parhau i fod mewn cyflwr da er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom gynnal trafodaethau â'r tîm deintyddol, a darganfod nad oeddent yn gallu rhoi'r dystysgrif gynnal a chadw ddiweddaraf inni ar gyfer y cyfarpar awtoclaf (roedd y dystysgrif flaenorol ychydig yn hŷn na’r cyfnod gofynnol o 14

[5]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

mis). Cytunodd y tîm i roi sylw i'r mater hwn yn brydlon. Ddiwrnod ar ôl yr arolygiad, fe'n hysbyswyd bod ymweliad cynnal a chadw wedi cael ei drefnu trwy gwmni newydd. Bydd y dystysgrif a gyflwynir  o ganlyniad i'r ymweliad hwnnw'n cael ei hanfon at AGIC i'w dilysu, fel y cytunwyd â'r practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis roi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod ganddynt gynllun cyfredol ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar awtoclaf.***

Gwaredu gwastraff

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dulliau cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi eu storio mewn rhan o'r practis nad oedd yn cael ei defnyddio gan y cyhoedd, cyn iddynt gael eu casglu. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis, a chanfod bod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus. Roedd yr offerynnau wedi'u storio'n briodol i osgoi halogi. Hefyd, roedd offer deintyddol wedi'u lapio'n dangos y dyddiad pan gawsant eu sterileiddio yn glir, ynghyd â'r dyddiad olaf ar gyfer eu defnyddio.

Roedd tystysgrif archwilio diogelwch ar gael ar gyfer y cywasgydd[6], a gwelsom hefyd fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfer y cyfarpar trydanol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom adolygu sampl o 15 cofnod deintyddol. O ganlyniad, gwelsom ar y cyfan fod cofnodion gofal y  cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynglŷn â'r trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau triniaethau a'r dulliau o geisio caniatâd cleifion. Yn ogystal, gwelwyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol

[6]Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer at ddiben triniaethau deintyddol.

Sylfaenol (BPE[7]) wedi eu cofnodi o ran ymgynghoriadau a gynhaliwyd ag oedolion, fel sy'n ofynnol o dan y canllawiau proffesiynol.

Canfuom fod y tîm deintyddol yn gwneud defnydd da o dempledi cyfrifiadurol i gofnodi gofal a thriniaethau a gynlluniwyd i gleifion, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod gorddibyniaeth ar awto-nodiadau (awgrymiadau electronig i helpu deintyddion i lenwi gwybodaeth). Roedd hyn yn golygu nad oedd cofnodion y cleifion mor unigol ag y gallent fod, yn unol â chanllawiau proffesiynol ar gyfer arfer da.

Gwelsom fod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol, a bod ansawdd y sganiau pelydr-X yn cael ei fonitro.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel yn y practis ar bapur ac yn electronig.

---

[7]Dull o sgrinio deintyddol a ddefnyddir i nodi clefyd y deintgig yn gynnar yw Archwiliadau Periodontol Sylfaenol. Gall deintyddion roi cyngor i chi wedyn ynglŷn â sut i frwsio'ch dannedd a'r ffordd orau o ddefnyddio edau dannedd.
http://www.bdasmile.org/adults/adults.cfm?contentid=1097&contentparentid=1034

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd y practis deintyddol wedi'i hen sefydlu, ac roedd yn cael ei redeg yn dda gan y prif ddeintydd a rheolwr practis. Roedd y ddau ohonynt yn cael eu cynorthwyo gan dîm gwybodus a brwdfrydig.**

**Roedd gan y practis systemau rheoli a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.**

Mae Practis Deintyddol Fairwater Green yn wasanaeth deintyddol sefydledig. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith, a'u bod yn gallu cael cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Roedd y prif ddeintydd yn cymryd rhan weithredol wrth redeg a rheoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos â rheolwr y practis. Roedd ystod o bolisïau, systemau rheoli a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i gleifion. Roedd pob polisi wedi bod yn destun adolygiad blynyddol, a oedd yn golygu bod gan y tîm deintyddol fynediad at bolisïau cyfredol a pherthnasol i'w cynorthwyo wrth iddynt wneud eu gwaith.

Roedd y practis yn aelod o raglen arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, ac wedi ennill gwobr ym mis Mawrth 2014 gan y sefydliad hwnnw. Trwy ddod yn aelodau o'r rhaglen sicrwydd ansawdd hon a gynhelir ledled y DU, mae practisau'n dangos ymrwymiad gweladwy i ddarparu gofal deintyddol o ansawdd da yn unol â safonau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Datgelodd trafodaeth â'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol fod trosiant a lefelau salwch/absenoldeb staff yn isel iawn. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Ar adegau roedd y practis yn defnyddio nyrsys deintyddol asiantaeth  pan nad oedd y staff rheolaidd ar gael. Gwnaethom siarad ag aelod o'r tîm deintyddol am y trefniadau sydd ar waith er mwyn gwirio pa mor gymwys oedd nyrsys asiantaeth, ac fe'n hysbyswyd bod y practis bob amser yn cael sicrwydd ar lafar ynglŷn â pha mor addas yw nyrsys o'r asiantaeth, a'u bod yn teimlo bod y wybodaeth hon yn ddibynadwy. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis hefyd yn gofyn am gofnod ysgrifenedig o'r cymwysterau a'r hyfforddiant a gwblhawyd pan fyddant yn defnyddio nyrsys asiantaeth yn y dyfodol, er mwyn sicrhau addasrwydd staff asiantaeth.

Gwelsom fod rhaglen hyfforddi briodol ar waith er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r tîm deintyddol yn mynd trwy broses ymsefydlu effeithiol. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan unigolion a oedd wedi derbyn hyfforddiant a chymorth i ddod yn gyfarwydd â'u swydd a phrosesau'r practis.

Dywedodd aelodau o'r tîm deintyddol y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn eu rolau yn y practis, a bod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal unwaith y mis, a rhoddwyd cofnodion inni a oedd wedi cael eu codi mewn cyfarfodydd diweddar. Roedd y nodiadau'n dangos bod amrywiaeth o bynciau perthnasol wedi cael eu trafod. Roedd y rhain y cynnwys syniadau ar gyfer hyfforddiant, arfarniadau a chynnwys holiaduron cleifion. Roedd hyn yn golygu bod gan y tîm deintyddol fecanwaith ffurfiol ar gyfer lleisio pryderon a diweddaru eu gwybodaeth ynglŷn â phrosesau'r practis a'u rolau.

Roedd trafodaethau ag unigolion yn cadarnhau eu bod yn hyderus wrth leisio unrhyw bryderon am ddarpariaeth gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion o ddydd i ddydd – gyda gwelliannau'n cael eu gwneud cyn belled ag y bo modd.

Gwnaethom edrych ar dair ffeil datblygiad proffesiynol parhaus yn fanwl, a gweld bod pob aelod o'r tîm dan sylw wedi derbyn cyfleoedd hyfforddi perthnasol, yn unol â'r canllawiau proffesiynol. Gwnaethom hefyd edrych ar dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer unigolion eraill, ac roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn rhoi cryn bwyslais ar ddysgu a datblygu. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Gwelsom dystiolaeth o frechiadau hepatitis B a chofnodion imiwnedd yn ffeiliau unigol y tîm deintyddol. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn cleifion ac unigolion a oedd yn gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd fod cymorth a chyngor ynglŷn â'u gwaith ar gael i'r tîm deintyddol gan adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ôl yr angen.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg yn y practis yn unol â'r rheoliadau, a gwelwyd bod manylion y rhain yn gywir.

Gwelsom fod y posteri iechyd a diogelwch yn y practis yn cynnwys manylion cyswllt priodol fel sy'n ofynnol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd safle'r practis deintyddol yn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Roedd pob man y tu mewn i'r adeilad i'w gweld yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, yn groesawgar ac yn daclus.**

Lleolir Practis Deintyddol Fairwater Green mewn adeilad masnachol wedi'i addasu, yng nghanol rhes o siopau ym mhentref y Tyllgoed, Caerdydd.

Nid oedd unrhyw leoedd parcio dynodedig ar gael yn y practis. Fodd bynnag, roedd yn bosibl parcio am ddim yn yr ardal breswyl o gwmpas.

Roedd llawr daear y practis yn cynnwys y dderbynfa, ystafell ddadheintio ac un ystafell driniaeth. Roedd mynediad i'r ystafell driniaeth yn bosibl trwy ramp parhaol a fyddai'n galluogi cleifion sydd ag anawsterau symudedd, a'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, i gael mynediad at ofal a thriniaeth mewn modd diogel. Roedd y ddwy ystafell driniaeth arall ar lawr cyntaf yr adeilad, ac roedd canllawiau i gynorthwyo cleifion wrth iddynt ddefnyddio'r grisiau.

Gwelsom fod un man aros â seddau ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf, a rhyngddynt roedd digon o le i'r cleifion aros, o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth a oedd yn y practis. Roedd y ddau fan yn olau, yn lân ac yn groesawgar.

Roedd tŷ bach ar gyfer staff a chleifion, ac arwyddion yn dangos y ffordd ato, wedi'i leoli ar y llawr daear. Roedd mynediad at y tŷ bach o'r dderbynfa ar draws ramp parhaol Gwelsom hefyd fod gan y practis dŷ bach ar y llawr cyntaf at ddefnydd y staff. Gallai rhai cleifion (sydd ag anawsterau symudedd) ei gael yn anodd defnyddio'r tŷ bach ar y llawr daear, gan fod y drws yn gul, ac nad oedd canllawiau i gynorthwyo â'r broses o gyrraedd y tŷ bach. Fodd bynnag, roedd cloch alw mewn achos brys ar gael. Roedd y cyfleusterau toiled i gyd yn lân ac yn hylan, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi/sychu dwylo addas. Gwnaeth y practis dderbyn ein hargymhellion i wneud addasiadau i'r tŷ bach ar y llawr daear (gosod canllawiau, er enghraifft) a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gyfforddusrwydd a diogelwch cleifion.

Roedd cegin fach ar gyfer staff ar ddau lawr yr adeilad; roedd un ohonynt yn rhan o swyddfa rheolwr y practis.

Gwelsom fod gan y practis ddogfennaeth ddilys ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Roedd pob man yn yr adeilad i'w gweld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod gan y practis system wresogi ac awyru addas.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Fairwater Green yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Fairwater Green

## Dyddiad yr Arolygiad: 11 Mehefin 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 10 | Mae angen i'r practis roi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod ganddynt gynllun cyfredol ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar awtoclaf<br><br>Safon Iechyd a Gofal 2.4 | Anfonir tystiolaeth trwy e-bost at yr arolygydd ynglŷn â'r cynllun ar gyfer gwasanaethu, a chynnal a chadw cyfarpar awtoclaf. | Rheolwr y Practis | Ymhen un wythnos i'r arolygiad |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):...Danielle Hill.............................................................................................**

**Teitl: ...Rheolwr y Practis...........................................................................................**

**Dyddiad: ...04/08/2015.................................................................................................**